# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru
# Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau
# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2019
# Parc Cathays, Caerdydd (gyda chyswllt fideo-gynadledda â Llandudno)

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Glyn | Jones | GJ | Llywodraeth Cymru (LlC) – Cadeirydd |
| Rose | Almond | RA | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Richard | Cardwell | RC | Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Chris | Clarke | CC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Dinas a Sir Caerdydd |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Janine | Edwards | JE | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (drwy Skype) |
| Leanne | John | LJ | Dinas a Sir Abertawe |
| Helen | Jones | HJ | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Steve | King | SK | Dinas a Sir Abertawe |
| Megan | Luker | ML | Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Duncan | MacKenzie | DM | Data Cymru (DC) |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Martin | Parry | MP | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Nita | Sparkes | NS | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Rob | Starr | RS | Cyngor Sir Ceredigion |
| Lowri | Wyn Morton | LWM | Cyngor Gwynedd (drwy Skype) |

## Cymerwyr nodiadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Holly | Flynn | HF | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Yasmin | Parekh | YP | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Dylan | Stocker | DS | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Niamh | Yale-Helms | NYH | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Paul | Dingle | PD | Llywodraeth Cymru (LlC) (drwy Skype) |

## Siaradwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dave | Jones | DJ | Awdurdod Cyllid Cymru |
| Dave | Roberts | DR | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Neil | Townsend | NT | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |

## Ymddiheuriadau

| | | |
|---|---|---|
| Lucy | Butler | Cyngor Bro Morgannwg |
| Hywel | Butts | Llywodraeth Cymru |
| Owen | Hathaway | Chwaraeon Cymru |
| Martin | Jennings | Comisiwn y Cynulliad |
| Sue | Leake | Llywodraeth Cymru |
| William | Miles | Cyngor Sir Fynwy |
| Jenny | Murphy | Data Cymru |
| Andrew | Stephens | Uned Ddata Cymru |
| Alison | Vaughan | Cyngor Sir Ceredigion |
| Andy | Wilson | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |

| 1 | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | |
|---|---|---|
| | Agorodd GC y cyfarfod a chroesawodd bawb, gan gynnwys VC o Landudno.<br>Roedd newid hwyr i'r agenda, gyda chyflwyniad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar amcangyfrifon incwm ardaloedd bach yn cael ei ohirio tan gyfarfod yn y dyfodol.<br>Diolchodd GJ i Alison Vaughan o Gyngor Sir Ceredigion am ei chyfraniadau at Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru am ei bod bellach wedi gadael ei swydd. | |
| **2** | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am bwyntiau gweithredu** | |
| | Cytunwyd ar nodyn y cyfarfod diwethaf.<br><br>Diweddariad ar Bwyntiau Gweithredu'r cyfarfod diwethaf:<br>1. GJ i gyflwyno crynodeb un dudalen o'r adborth ar y ffordd y defnyddir adroddiad Llesiant Cymru.<br>2. Cadarnhaodd pawb a oedd yn bresennol eu bod wedi cael y ddolen.<br>3. Cariwyd y cam gweithredu ymlaen.<br>4. Mae angen i GJ anfon yr e-bost o hyd.<br>5. Rhoddodd DM ddiweddariad ar y broses o enwi Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganolog – cyflwynwyd cais answyddogol gan lyfrgell Tŷ'r Cyffredin i awgrymu enwau ar gyfer yr ardaloedd hyn, i'w cyhoeddi yn ystod y mis nesaf. Bydd DM yn dosbarthu'r ddolen pan gaiff y rhestr ei chyhoeddi. Holodd GJ a ddylid defnyddio'r rhestr hon gan ei bod yn answyddogol.<br>6. Rhoddodd DM ddiweddariad ar y datganiad methodoleg ar y wefan – bydd yn ei gyhoeddi cyn bo hir ac yn anfon dolen at yr aelodau. | **Cam gweithredu:** GJ i gyflwyno crynodeb un dudalen o'r adborth ar y ffordd y defnyddir adroddiad Llesiant Cymru.<br><br>**Cam gweithredu:** DM i gysylltu ag SYG i gael gwybod beth yw ei barn ar y rhestr o enwau answyddogol ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganolog ac anfon ymateb.<br><br>**Cam gweithredu:** DM i ddosbarthu dolen i'r canllawiau ar y data a'r fethodoleg a ddefnyddir ar |

| | | |
|---|---|---|
| | 7. GJ i rannu diweddariad yn ddiweddarach yn y cyfarfod.<br>8. Rhoddwyd manylion cyswllt.<br>9. Codwyd pryderon am y cwestiwn ar ethnigrwydd yn y cyfrifiad oherwydd nad oedd y testun disgrifiadol yn gyson i bob grŵp ethnig. Mae GJ wedi codi'r mater hwn gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) gan nad yw i'w gweld yn deg, ond nid yw SYG yn bwriadu newid y cwestiwn. Dywedodd HJ y byddai Aelodau'r Cynulliad yn cytuno â'r pryderon o ystyried profiad blaenorol. Gwelodd LWM ar y cyfryngau cymdeithasol efallai na fydd rhai pobl yn llenwi'r cyfrifiad o ganlyniad i'r cwestiwn hwn. Gofynnodd GJ am dystiolaeth o hyn i'w throsglwyddo a chadarnhaodd y byddai'n codi'r mater eto gydag SYG.<br>10. Cadarnhaodd GJ fod SL ac yntau wedi ystyried y mater ac nid ydynt bellach yn bwriadu cyfuno cyfarfodydd yn y dyfodol.<br>11. Cwblhawyd.<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau eraill ar y Pwyntiau Gweithredu. | gyfer sgoriau yng ngwaith Lleoedd Ffyniannus. |
| **3** | **Adolygiad o'r papurau gwybodaeth** | |
| | Wrth drafod diweddariad Ystadegau Cymru:<br>• Nododd GJ fod SYG wedi cyhoeddi'r amcangyfrifon cyntaf o gynnyrch domestig gros chwarterol ar gyfer gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr gan ddefnyddio data TAW - digwyddiad pwysig, cam cadarnhaol a oedd yn bosibl o ganlyniad i'r cyllid ar gyfer SYG. Mae diddordeb gan Lywodraeth Cymru yn yr adborth ar y defnydd a wneir ohonynt.<br>• Enillodd y tîm Angen am Dai Glod Uchel (3ydd) yng ngwobrau GSBB yn y Categori Effaith.<br>• Y dyddiad cyhoeddi ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 yw 27 Tachwedd 2019. Galwyd ar awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn sesiynau holi ac ateb – dim ond 14 ohonynt a oedd cofrestru hyd hynny. Esboniodd GJ y byddai sesiynau holi ac ateb yn rhoi cyfle i graffu ar ddata MALIC fel rhan o'r prosesau holi ac ateb. Rhoddodd yr aelodau rai awgrymiadau ynghylch sut i gysylltu â'r awdurdodau lleol sy'n weddill.<br>• Tynnodd JE sylw at yr angen i siarad â'r wasg a swyddogion awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i ddeall defnyddiau a chyfyngiadau MALIC cyn iddo gael ei gyhoeddi. Dywedodd GJ fod sesiwn wedi'i chynllunio i friffio'r wasg cyn iddo gael ei gyhoeddi. | **Cam gweithredu:** Llywodraeth Cymru i anfon deunyddiau briffio i awdurdodau lleol, y gallai newyddiadurwyr lleol eu defnyddio i wneud eu hadroddiadau ar MALIC yn fwy gwybodus. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Awgrymodd VD, o ran ymdrin â'r wasg, y dylai Llywodraeth Cymru roi sylw iddo ar lefel genedlaethol ac y dylai awdurdodau lleol ymdrin ag ef ar lefel leol. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol rhannu unrhyw ddeunydd y gellid ei ddefnyddio i friffio swyddogion awdurdodau lleol a chyfryngau lleol.<br>• Dywedodd GJ fod adroddiad Llesiant Cymru wedi cael ei gyhoeddi.<br><br>Wrth drafod y cylchlythyr Demograffeg:<br>• Mae SYG wedi newid dosbarthiad ystadegau ymfudo i ystadegau arbrofol.<br>• Disgwylir i'r amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol gael eu cyhoeddi ar 31 Hydref 2019, gyda'r oedi'n deillio o gael data. Nododd yr aelodau bryderon am allu awdurdodau lleol i gymryd rhan yn y gwaith ar yr amcanestyniadau, ac na fyddai amcanestyniadau amrywiadol yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r prif amcanestyniadau. Gofynnodd GJ hefyd am gael demograffwyr â diddordeb o awdurdodau lleol i ymuno â grŵp WASP.<br>• Yn ddiweddarach yn y cyfarfod, cadarnhaodd GJ y caiff amrywiadau ar Amcanestyniadau Poblogaeth Llywodraeth Leol eu cyhoeddi ar 31 Hydref 2019. Bydd sesiwn holi ac ateb yn cael ei chynnal cyn hynny a chaiff papur ffurfiol ei ddosbarthu i'r rhai na fyddent yn bresennol.<br><br>Diweddariad Data Cymru (DC) gan DM:<br>• Proffilio Lleoedd i'w ddiweddaru ar ôl i MALIC gael ei gyhoeddi.<br>• Prosiect ar Dueddiadau'r Dyfodol: mae Data Cymru yn ystyried sut i ddarparu data a fyddai'n helpu awdurdodau lleol i ddeall sut olwg fydd ar eu hardaloedd yn y dyfodol.<br>• Mae Data Cymru yn gwneud llawer o waith gyda Data Agored ac mae awdurdodau lleol yn parhau i ddangos diddordeb ynddo.<br>• Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y gwahaniaeth rhwng adnodd Proffilio Lleoedd Data Cymru a'r adnodd Deall Lleoedd Cymru. Esboniodd GJ fod Deall Lleoedd Cymru yn cael ei ddatblygu gan Ymddiriedolaeth Carnegie a'r Sefydliad Materion Cymreig, a'i fod yn seiliedig ar boblogaeth lai o 1,500.<br>• Trafodwyd pa mor gywir y byddai disgrifiadau lleoedd ar yr adnodd Deall Lleoedd Cymru, ac esboniodd GJ fod y Sefydliad Materion Cymreig yn cymedroli unrhyw ddisgrifiadau a ddarperir gan gynghorau tref drwy Un Llais Cymru. Holodd LR a VD sut y byddai cyflwyno disgrifiadau | **Cam gweithredu:** Aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i gysylltu â thimau cyfathrebu mewnol awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol y gallant gysylltu â Llywodraeth Cymru i gael canllawiau ar gyflwyno adroddiadau ar MALIC.<br><br>**Cam gweithredu:** GJ i anfon gwybodaeth i aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ynghylch sut i ddarparu disgrifiadau lleoedd ar gyfer Deall Lleoedd Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | lleoedd yn gweithio mewn ardaloedd lle nad oes cynghorau tref, neu lle nad yw'r cyngor tref wedi'i gofrestru ag Un Llais Cymru, a dywedodd GJ y byddai'n ymchwilio i hyn. Cynigiodd yr aelodau gefnogi'r broses o ddarparu disgrifiadau lleoedd.<br>• Ychwanegodd GJ y byddai'n gwerthfawrogi adborth ar ddigwyddiad lansio Deall Lleoedd Cymru, a dosberthir dolen i'r adnodd pan fydd yn cael ei gyhoeddi ddydd Mawrth. | **Cam gweithredu:** GJ i anfon dolen i'r adnodd Deall Lleoedd Cymru pan fydd yn fyw fel y gall aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru roi adborth. |
| **4** | **Ailddatblygu Lle** | |
| | Cyflwynodd GJ Dave Roberts (DR), Pennaeth Daearyddiaeth Llywodraeth Cymru. Esboniodd GJ sut y mae Map Data Cymru, sef Lle yn flaenorol, yn llwyfan geogofodol mwy cadarn a ddylai alluogi awdurdodau lleol i gyhoeddi data geogofodol agored.<br><br>Roedd Lle yn brosiect ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyflawni ymrwymiad INSPIRE yr UE. Fodd bynnag, roedd yr hen system yn mynd yn ansefydlog, felly mae wedi cael ei hailwampio i ymdopi â mwy o ddefnydd ac ehangu amrywiaeth y data sy'n cael eu cynnwys er mwyn ateb galw polisïau. Bydd hefyd yn dod yn fwy hygyrch ac yn ymgorffori grwpiau defnyddwyr diogel er mwyn sicrhau bod modd lanlwytho data cyfyngedig yn ogystal â data agored.<br><br>Roedd Grŵp Llywio Map Data Cymru yn cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, CNC a Chyngor Castell-nedd Port Talbot (CNPT). Mae gweithdai'n cael eu cynllunio ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru; caiff gwahoddiadau eu hanfon at Swyddogion Cyswllt yr Arolwg Ordnans.<br><br>Nid yw'r data a ddarperir gan Fap Data Cymru yn ddaearol yn unig; mae Porth Cynllunio Morol sy'n cael ei wella'n barhaus. Disgwylir iddo gael ei lansio yn ystod y mis nesaf.<br><br>Gofynnodd GJ am eglurhad ynghylch a oedd data StatsCymru yn cael eu defnyddio o fewn Map Data Cymru. Esboniodd DR fod angen gwneud mwy o waith er mwyn cydweddu â'r adnodd newydd.<br><br>Bydd modd golygu data ar-lein ar gyfer setiau data penodol, ond dim ond gan ddefnyddwyr cofrestredig. Caiff yr adnoddau o fewn Lle eu lleihau'n raddol wrth i Fap Data Cymru ddod yn fwy dibynadwy. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Eglurodd DR y byddai awdurdodau lleol yn cael lanlwytho eu setiau data lleol eu hunain i Fap Data Cymru, a chyflwynir polisi i egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau, gan sicrhau y caiff y data cywir eu lanlwytho ac y caiff cyfrinachedd ei gynnal.<br><br>Bydd gweithdai sy'n ymwneud â Map Data Cymru yn cael eu cynnal bob chwe mis er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau newydd i ddefnyddwyr yn y sector cyhoeddus.<br><br>Nododd NS fod CNPT wedi trefnu i gyflenwyr allanol wneud gwaith i geisio nodi'r risg o dlodi ar lefel aelwydydd a gofynnodd a ellid gwneud hyn drwy Fap Data Cymru. Cadarnhaodd DR y gellir cadw'r data hyn, ond nodwyd y byddai Map Data Cymru yn storio gwybodaeth yn hytrach na darparu data newydd. Cynigiodd GJ y dylai cynrychiolydd o CNPT roi cyflwyniad ar waith amcanestyniadau'r cyngor yn y cyfarfod nesaf. O ran tlodi aelwydydd, nodwyd hefyd gan aelod nad oedd Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru wedi cael diweddariad ar Gredyd Cynhwysol yn ddiweddar.<br><br>Anogodd GJ aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i ddod i'r gweithdai a gaiff eu cynnal ynghylch Map Data Cymru lle y bo'n bosibl. | **Cam gweithredu:** NS i nodi cynrychiolydd addas o CNPT i roi cyflwyniad ar ei waith ar dlodi aelwydydd mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>**Cam gweithredu:** Diweddariad yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ar effaith Credyd Cynhwysol. |
| **5** | **Rhannu Gwybodaeth** | |
| | Nid yw Gareth Hall na Nick Lloyd (Llywodraeth Cymru) ar gael i gyflwyno ond darparwyd y diweddariad canlynol ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru:<br>• Bydd yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn cael ei gynnal rhwng 7 Awst ac 1 Tachwedd 2019 a gellir dod o hyd iddo ar-lein.<br>• Gellir e-bostio unrhyw gwestiynau i NDF@llyw.cymru<br>• Caiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2020 a'i gyhoeddi ym mis Medi 2020.<br>Ychwanegodd GJ y caiff y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei ddiweddaru gydag amcangyfrifon poblogaeth ac amcanestyniadau o'r angen am dai os byddant ar gael. Mynegodd JE fod dryswch ymhlith cynllunwyr trefol yn y gogledd ynghylch cynnwys ffigurau tai yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a bod angen gwahaniaethu'n glir ym Mholisi Cynllunio Cymru neu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol rhwng y ddarpariaeth a'r galw. Mae JE yn hapus i gynorthwyo gyda hyn. | **Cam gweithredu:** GJ i fynegi pryder wrth yr arweinwyr polisi am ddiffyg eglurder y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ynghylch y ddarpariaeth a'r galw. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd SK fod e-bost wedi cael ei ddosbarthu i'r Bartneriaeth Gwybodaeth Ganolog a Lleol o fewn ardaloedd lleol yn gofyn am adborth ar y cwestiwn ar gymwysterau yn yr Arolwg o'r Llafurlu, ond ni roddwyd unrhyw gyd-destun. Cafwyd cwestiynau gan Is-adran y Farchnad Lafur yn SYG. Awgrymodd GJ y gallai hyn ymwneud â deall anghenion defnyddwyr o ystadegau'r Farchnad Lafur gan fod Arolwg SYG o'r Farchnad Lafur yn cael ei drawsnewid. Cynigiodd NT gymryd camau dilynol yn SYG. | |
| **6** | **Diweddariad ar y Cyfrifiad** | |
| | Rhoddwyd cyflwyniad gan Neil Townsend (NT) er mwyn amlinellu ymarfer y Cyfrifiad.<br><br>Trefnir i'r ymarfer gael ei gynnal ar 13 Hydref 2019. Un o'i nodau fydd nodi meysydd diffyg ymateb i weithredu arnynt cyn Cyfrifiad 2021.<br><br>Anfonwyd llythyrau gwahoddiad rhwng 23 a 26 Medi 2019 i bedwar lleoliad a ddewiswyd i gynrychioli croestoriad.<br><br>Caiff llythyrau atgoffa eu dosbarthu a bydd staff maes yn mynd o ddrws i ddrws i gynyddu cyfraddau ymateb i'r ymarfer.<br><br>Cyflwynodd NT arddangosiad o'r e-holiadur dwyieithog a gafodd ei ganmol am ei ddefnyddioldeb gan RS. Yn dilyn yr ymarfer, caiff yr ymatebion dwyieithog eu dadansoddi er mwyn deall pryd/ble y ffefrir opsiwn y Gymraeg. Awgrymwyd y gellid gwahodd tîm dadansoddi'r Holiadur Electronig i ymuno â grŵp sicrhau ansawdd y Gymraeg SYG.<br><br>Dangosodd NT enghreifftiau o'r hysbysebion i'w defnyddio fel rhan o ymgyrch yr ymarfer i'r pwyllgor. Holodd GJ a oedd yr hysbysebion wedi'u targedu er mwyn apelio at ardaloedd penodol a dywedodd y dylid bod yn wyliadwrus o atgyfnerthu ystrydebau. Dywedodd LR hefyd nad oedd llawer o oedolion ifanc yn rhan o'r hysbysebion a gafodd eu dangos. Pwysleisiodd NT y bydd ymdrech i dargedau grwpiau sy'n debygol o beidio â chymryd rhan a'r rhai y gall fod angen mwy o gymorth arnynt i gymryd rhan.<br><br>Esboniodd NT fod adnoddau wedi cael eu darparu i ysgolion fel rhan o ymgyrch Counter Cats. Nod yr ymgyrch hon yw ennyn diddordeb plant, yn enwedig mewn ardaloedd lle disgwylir cael ymateb isel, er mwyn ceisio cynyddu cyfranogiad rhieni. | **Cam gweithredu:** NT i fynegi'r potensial i drafod EQ Analytics fel rhan o grŵp sicrhau ansawdd y Gymraeg ar gyfer Cyfrifiad 2021.<br><br>**Cam gweithredu:** Cafodd aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru eu hannog i ddilyn cyfrifon Twitter a Facebook 2021 er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth (@Cyfrifiad2021 ac @Census2021).<br><br>**Cam gweithredu:** NT i ysgrifennu i Gyngor Sir |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd y byddai'r gwaith roedd SYG wedi'i wneud ar ymgysylltu â'r gymuned yn arferion da defnyddiol i'w rhannu ag awdurdodau lleol sy'n cael eu herio i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp mewn cymdeithas.<br><br>Dylai pob awdurdod lleol benodi Rheolwr Cyswllt ar y Cyfrifiad a Rheolwr Cyswllt Cynorthwyol ar y Cyfrifiad. Mynegodd rhai aelodau bryderon fod eu Rheolwr Cyswllt ar y Cyfrifiad neu eu Rheolwr Cyswllt Cynorthwyol ar y Cyfrifiad wedi gadael ei swydd yn ddiweddar neu nad oedd yn cael e-byst SYG ynghylch y Cyfrifiad. Nododd yr aelodau y byddent yn croesawu cyfarfodydd rhanbarthol rhwng Rheolwyr Cyswllt ar y Cyfrifiad/Rheolwyr Cyswllt Cynorthwyol ar y Cyfrifiad ac SYG er mwyn rhannu profiadau.<br><br>Trefnir cyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad ar gyfer mis Ionawr 2020. | Powys i gadarnhau pwy yw'r Rheolwr Cyswllt ar y Cyfrifiad.<br><br>**Cam gweithredu:** NT i gadarnhau a yw rhestr bostio'r Rheolwyr Cyswllt ar y Cyfrifiad yn gyfredol.<br><br>**Cam gweithredu:** Mae'n bosibl y daw NT yn ôl i gyfarfod nesaf Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i rannu cyngor ar arferion da o ran ymgysylltu â'r gymuned, yn seiliedig ar ganfyddiadau SYG o Ymarfer y Cyfrifiad. |
| **7** | **Cyhoeddiadau Awdurdod Cyllid Cymru** | |
| | Rhoddwyd cyflwyniad gan DJ i ddarparu manylion Awdurdod Cyllid Cymru sydd newydd ei sefydlu ac sy'n gyfrifol am y ddwy dreth ddatganoledig gyntaf yng Nghymru.<br><br>Nododd DJ fod y cyhoeddiad HTML newydd wedi cael ei groesawu o fewn Awdurdod Cyllid Cymru.<br><br>Dywedodd DJ nad yw'n bosibl cymharu ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir yn llawn â'r ystadegau a ddarperir gan CThEM o ganlyniad i'r cyfraddau gwahanol ar gyfer Cymru.<br><br>Cafodd Awdurdod Cyllid Cymru rywfaint o sylw heriol yn y cyfryngau pan gafodd yr ystadegau trafodiadau tir cyntaf eu cyhoeddi o ganlyniad i gyhoeddi erthyglau camarweiniol am gartrefi ychwanegol.<br><br>Nid oedd y data daearyddol a gafodd eu rhyddhau yn rhoi'r stoc eiddo lawn gan mai dim ond 95% a ddychwelodd y data gofynnol. Holodd GJ am y gallu i gynyddu nifer y ffurflenni sy'n cael eu dychwelyd drwy wneud dynodwyr daearyddol yn orfodol.<br><br>Gofynnodd GJ a ellid cymharu'r data hyn â datganiadau'r SYG ei hun. Ymatebodd DJ nad yw SYG yn cynnwys rhai mathau o eiddo a gaiff eu cynnwys o fewn data Awdurdod Cyllid Cymru. Mae hyn yn cynnwys unrhyw eiddo a brynir/gwerthir gan gwmni. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Holodd JE am y defnydd o ddata ar lefel awdurdod lleol ac awgrymodd y dylid eu dadansoddi ar lefel leol er mwyn gwella eu defnyddioldeb. Esboniodd DJ fod mater cyfrinachedd trethdalwyr yn effeithio ar hyn, ac mae deddfwriaeth yn cyfyngu arno. Awgrymwyd y gellid defnyddio brasamcanion yn lle hynny. Dywedodd DJ y byddai'n ystyried y posibilrwydd o wneud hyn.<br><br>Rhoddodd DJ wybod i'r grŵp y byddai data ar ardaloedd adeiledig yn cael eu rhyddhau cyn bo hir. | **Cam gweithredu:** DJ i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio brasamcanion er mwyn dadansoddi data o lefel Uned i lefel Leol. |
| **8** | **Brexit – trafodaeth bord gron am unrhyw broblemau/pryderon** | |
| | Nododd GJ fod risg bosibl i lif data os ceir Brexit heb gytundeb, yn benodol os yw'r data yn cael eu storio yn yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd. Roedd canllawiau sylweddol ar gael a chynghorodd GJ yr aelodau i gysylltu â'r arweinwyr ar Brexit yn eu sefydliad i drafod unrhyw ymholiadau.<br><br>Nododd PJ fod awdurdodau lleol yn cael trafferth o ran nodi ffynonellau data ar breswylwyr yr UE er mwyn sicrhau bod modd iddynt roi gwybod iddynt am y cynllun statws preswylwyr sefydlog.<br><br>Rhoddodd ML wybod i'r pwyllgor fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llunio sawl adroddiad yn ymwneud â chanlyniadau Brexit. | |
| **9** | **Unrhyw fater arall** | |
| | Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 06/02/20 ym Mharc Cathays, Caerdydd (gyda chyswllt fideo-gynadledda o Landudno ar gael). | |

## Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu

| Rhif | Cam gweithredu | Pwy? |
|---|---|---|
| **1** | GJ i gyflwyno crynodeb un dudalen o'r adborth ar y ffordd y defnyddir adroddiad Llesiant Cymru. | GJ |
| **2** | GJ i gysylltu â SYG er mwyn cadarnhau beth yw ei barn ar y rhestr o enwau answyddogol ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganolog ac anfon ymateb. | GJ |
| **3** | DM i ddosbarthu dolen i'r canllawiau ar y data a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer sgoriau yng ngwaith Lleoedd Ffyniannus. | DM |
| **4** | Llywodraeth Cymru i anfon deunyddiau briffio i awdurdodau lleol, y gallai newyddiadurwyr lleol eu defnyddio i wneud eu hadroddiadau ar MALIC yn fwy gwybodus. | Llywodraeth Cymru |
| **5** | VD a DM i gysylltu â thimau cyfathrebu mewnol awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol y gallant gysylltu â Llywodraeth Cymru i gael canllawiau ar gyflwyno adroddiadau ar MALIC. | VD, DM |
| **6** | GJ i anfon gwybodaeth i aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ynghylch sut i ddarparu disgrifiadau lleoedd ar gyfer Deall Lleoedd Cymru. | GJ |
| **7** | GJ i anfon dolen i'r adnodd Deall Lleoedd Cymru pan fydd yn fyw fel y gall aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru roi adborth. | GJ, Pawb |
| **8** | NS i nodi cynrychiolydd addas o CNPT i roi cyflwyniad ar waith amcanestyniadau'r cyngor mewn cyfarfod yn y dyfodol. | NS |
| **9** | Diweddariad yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ar effaith Credyd Cynhwysol. | Ysgrifenyddiaeth |
| **10** | GJ i fynegi pryder wrth yr arweinwyr polisi am ddiffyg eglurder y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ynghylch y ddarpariaeth a'r galw. | GJ |
| **11** | NT i fynegi'r potensial i drafod EQ Analytics fel rhan o grŵp sicrhau ansawdd y Gymraeg ar gyfer Cyfrifiad 2021. | NT (SYG) |
| **12** | Cafodd aelodau Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru eu hannog i ddilyn cyfrifon Twitter a Facebook 2021 er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth (@Cyfrifiad2021 ac @Census2021). | Pawb |
| **13** | NT i ysgrifennu i Gyngor Sir Powys i gadarnhau pwy yw'r Rheolwr Cyswllt ar y Cyfrifiad. | NT (SYG) |
| **14** | NT i gadarnhau a yw rhestr bostio'r Rheolwyr Cyswllt ar y Cyfrifiad yn gyfredol. | NT (SYG) |
| **15** | Mae'n bosibl y daw NT yn ôl i gyfarfod nesaf Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru i rannu cyngor ar arferion da o ran ymgysylltu â'r gymuned, yn seiliedig ar ganfyddiadau SYG o Ymarfer y Cyfrifiad. | NT (SYG) |
| **16** | DJ i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio brasamcanion er mwyn dadansoddi data o lefel Uned i lefel Leol. | DJ |